# Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17
## Ffeithiau Allweddol ar gyfer Polisi ac Arfer

*Agweddau tuag at y Perygl o Lifogydd*

### Cefndir

Mae'r bwletin hwn yn disgrifio prif ganfyddiadau adran Agweddau tuag at y Perygl o Lifogydd, Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-2017. Mae'r canlyniadau llawn a Dangosydd Canlyniadau rhyngweithiol i'w cael ar http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&lang=cy.

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i is-sampl o ymatebwyr yr Arolwg Cenedlaethol;

- Ydych chi wedi ymchwilio i weld os oes risg y bydd eich tŷ yn dioddef llifogydd?
- Pa mor bryderus ydych chi am y risg o lifogydd i'ch eiddo chi?
- Pa mor bryderus ydych chi am y risg o lifogydd i'ch ardal leol?
- Pa mor bryderus ydych chi am y risg o lifogydd mewn rhannau eraill o Gymru?
- Pa sefydliadau fyddech chi'n cysylltu â nhw am gyngor ar lifogydd?

Yn ogystal, mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys amrywiaeth eang o gwestiynau am ddemograffeg, ffactorau economaidd-gymdeithasol fel amddifadedd, ac am yr ardal ble mae pobl yn byw (fel ardaloedd gwledig neu drefol). Mae'r ymatebion wedi eu pwysoli er mwyn eu gwneud yn gynrychiadol o nodweddion poblogaeth oedolion Cymru.

### Canfyddiadau Allweddol


- Mae'r lefel pryder cyffredinol am lifogydd yng Nghymru'n amrywio'n sylweddol yn dibynnu os gofynnir i bobl am eu cartref eu hunain neu ardaloedd ehangach. Yn ddiddorol iawn, roedd pobl yng Nghymru'n pryderu mwy am lifogydd mewn rhannau eraill o Gymru nag yn eu hardaloedd lleol neu hyd yn oed eu heiddo eu hunain. Roedd naw y cant yn 'bryderus iawn' neu'n 'weddol bryderus' am eu heiddo eu hunain, ond roedd 59% yn 'bryderus iawn' neu'n 'weddol bryderus' am rannau eraill o Gymru.

- O ran gweithredu, roedd bron i un o bob pum person (18%) wedi gwirio os oedd risg y byddai eu tŷ yn dioddef llifogydd, er bod y mwyafrif (74%) heb wneud gan nad oeddent yn meddwl bod angen iddyn nhw. O ddiddordeb penodol mae'r 8% o ymatebwyr oedd heb edrych i mewn i'r posibilrwydd os oedd risg y byddai eu tŷ yn dioddef llifogydd, ond oedd yn meddwl y dylent wneud.

- Roedd cyfuniad o sefydliadau y byddai pobl yn cysylltu â nhw am gyngor ar lifogydd, gyda'r mwyafrif yn cyfeirio at unai'r cyngor lleol (38%) neu Asiantaeth yr Amgylchedd (33%). Dim ond un o bob wyth ymatebwr ddywedodd y byddent yn cysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru am gyngor (16%).

- Roedd lefel cyfartalog y pryder ynghylch llifogydd i'w heiddo eu hunain yn isel. Mae Ffig. 1 yn dangos cyfran lefelau pryderon cymharol ymatebwyr ynghylch llifogydd yn effeithio ar eu heiddo eu hunain, eu hardal leol, a rhannau eraill o Gymru.


*Ffig. 1- Lefelau pryder am risg llifogydd yn ôl perthynas â'r ardal gaiff ei heffeithio*




## Gwirio os yw Eiddo mewn Perygl

Gofynnwyd i ymatebwyr os oeddent wedi ymchwilio i weld os oedd risg y byddai eu tŷ yn dioddef llifogydd. Dywedodd bron i 1 o bob 5 person (18%) eu bod wedi, ond dywedodd y mwyafrif (74%) nad oeddent, gan nad oeddent yn meddwl bod angen iddyn nhw. O ddiddordeb penodol mae'r 8% ddywedodd nad oeddent wedi ymchwilio i hyn, ond oedd yn credu y dylent. Mae Ffig. 2 yn egluro hyn. Roedd bron i hanner (48%) o'r rheini oedd yn bryderus iawn am lifogydd yn eu hardal leol wedi ymchwilio i weld os oedd eu heiddo mewn perygl; dim ond 23% o'r rheini oedd yn bryderus iawn am ardaloedd eraill o Gymru oedd wedi gwirio'r sefyllfa. Roedd y mwyafrif llethol (86%) o'r rheini oedd ddim yn bryderus o gwbl ynghylch llifogydd yn eu hardal leol ddim yn teimlo bod angen iddyn nhw wirio'r sefyllfa.

*Ffig.2- Ymchwilio os yw eich eiddo chi mewn perygl*




Roedd trigolion ardaloedd gwledig yn llawer mwy tebygol i fod wedi gwirio os oedd eu heiddo mewn perygl o ddioddef llifogydd. Nid oedd ymatebwyr oedd ag iechyd cyffredinol gwael, neu bobl wedi eu heffeithio gan amddifadedd materol, yn llawer mwy neu lai tebygol o fod wedi gwirio'r sefyllfa.

## Pryder ynghylch perygl llifogydd i'w heiddo eu hunain

Mae'r gyfran o bobl sy'n pryderu am y risg o lifogydd i'w heiddo eu hunain yn gymharol isel, gyda dim ond 9% unai'n 'bryderus iawn' neu'n 'weddol bryderus'.

- Nid oedd gwahaniaeth sylweddol yn y lefelau pryder a adroddwyd rhwng gwahanol grwpiau oedran, pobl sy'n byw mewn ardal wledig neu drefol, neu'n ôl y math o ddeiliadaeth cartref (e.e. rhentu neu'n berchen tŷ).


- Roedd ymatebwyr oedd yn perthyn i grŵp lleiafrifoedd ethnig yn llawer llai pryderus ynghylch y risg y byddai eu tŷ yn dioddef llifogydd.

- Er nad oedd unrhyw wahaniaeth o ran Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) yn gyffredinol, ar yr is-raddfa tai roedd y cwintel mwyaf anghenus yn llawer mwy pryderus na'r cwintel lleiaf anghenus.

- Nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol mewn lefelau pryder mewn perthynas ag iechyd meddwl ymatebwyr, eu lefel pryder cofnodedig diweddaraf, neu eu bodlonrwydd cyffredinol gyda'r ardal y maent yn byw ynddi.

- Roedd lefelau pryder ynghylch llifogydd yn effeithio ar eiddo personol yr ymatebwyr uchaf yn Sir Ddinbych, Gwynedd a Chonwy. Yr ardaloedd awdurdodau unedol lleiaf pryderus oedd Bro Morgannwg, Merthyr Tudful a Chaerdydd. Mae Ffig. 3 yn dangos yr awdurdodau'n nhrefn y mesur hwn.

*Ffig. 3 - Lefelau pryder am lifogydd i'w eiddo eu hunain yn ôl Awdurdod Unedig*




## Pryder ynghylch perygl llifogydd yn yr ardal leol

Roedd un o bob pedwar person (25%) yn 'bryderus iawn' neu'n 'weddol bryderus' ynghylch y risg o lifogydd yn eu hardal leol, sy'n sylweddol uwch na'r gyfran sy'n bryderus am eu heiddo eu hunain (9%).

- Nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol yn y lefelau pryder a adroddwyd mewn perthynas ag oedran, amddifadedd materol, deiliadaeth cartref, salwch meddyliol neu iechyd cyffredinol.
- Roedd pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn llawer mwy pryderus na phobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol.

## Pryder ynghylch perygl llifogydd mewn ardaloedd eraill o Gymru

Mae cyfran uchel o'r boblogaeth (59%) yn bryderus am y risg o lifogydd mewn rhannau eraill o Gymru. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r nifer o bobl sy'n pryderu ynghylch llifogydd yn effeithio ar eu heiddo eu hunain neu eu hardal leol.

Canfu'r arolwg:

- Nad oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol yn y lefelau pryder a adroddwyd mewn perthynas ag iechyd cyffredinol neu salwch meddyliol; roedd pobl sy'n dioddef amddifadedd materol yn pryderu ychydig, ond yn llawer llai pryderus na phobl eraill. Roedd cydberthynas gref ag oedran, sy'n awgrymu bod pobl hŷn yn tueddu i fod rhywfaint yn fwy pryderus am ardaloedd eraill yng Nghymru.
- Roedd ymatebwyr sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn llawer mwy pryderus na phobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol.

## Sefydliadau Cyswllt

Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am rybuddio am lifogydd ac ymateb iddynt yng Nghymru. Roedd nifer o wahanol sefydliadau y dywedodd pobl y byddent yn cysylltu â hwy am gyngor ynghylch llifogydd. Yr ymatebion mwyaf cyffredin oedd:

- Awdurdod lleol (38%)
- Asiantaeth yr Amgylchedd (33%)
- Cyfoeth Naturiol Cymru (16%)

Roedd sefydliadau eraill y cyfeiriwyd atynt yn cynnwys y Gwasanaeth Tân (8%) a'r Heddlu (4%) yn ogystal â'r National Flood Forum (6%).

Roedd pobl ddywedodd y byddent yn cysylltu gyda CNC yn llawer mwy tebygol i fod wedi ymchwilio os oedd eu cartref mewn perygl.

## Metadata

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn bartner yn Arolwg Cenedlaethol newydd Cymru; dyma ail gyhoeddiad CNC o'r Arolwg newydd.

Mae gwybodaeth dechnegol am yr Arolwg ar gael gan Lywodraeth Cymru ar http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/design-methodology/technical-information/?lang=cy

Caiff y wybodaeth yn yr adroddiad hwn ei gategoreiddio fel Ystadegau Swyddogol, ac mae wedi ei gynhyrchu a'i gyhoeddi'n unol â threfniadau a gymeradwywyd gan Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig.

Ystadegydd Cyfrifol:
Richard Cardwell
E-bost:
richard.cardwell@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Gwyddonydd Cymdeithasol:
Susan Williams
E-bost:
susan.a.williams@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Ymholiadau'r wasg:
cyfathrebu@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk